Medi 2021

# BANGOR YN GYNTAF - NEWYDDLEN

**Yn y rhifyn yma:**

- Stori Newyddion Da
- Prosiect ffocws
- Cwestiwn ac Ateb

Bangor First
Bangor Yn Gyntaf

## Stori Newyddion Da




*"Am le anhygoel. Croeso cyfeillgar ac awyrgylch positif bob amser. Maent yn gwir haeddu ennill y wobr yma am eu toesenni yn unig."*

*-Rebecca Glass*

---

*"'Dwi'n caru'r siop yma, blasau anhygoel ac i gyd wedi eu gwneud gartref hefyd."*

*-Ali Thomas*



Llongyfarchiadau enfawr i Coco Vanille ar gyrraedd y rhestr fer ar gyfer gwobrau dechrau busnes Cymru. Cyhoeddir yr enillwyr Ddydd Iau y 9fed o Fedi.
Dymunwn bob lwc i chi!




Bangor

## Prosiect Cyfredol

Rydym yn falch i gyhoeddi'r Cerdyn Teyrngarwch Caru Bangor!
Mae'r cynllun hwn yn anelu i gadw cymaint o arian â phosib i gael ei wario ym Mangor a'r ardaloedd o'i chwmpas.

Mae'n reit syml, gwariwch o leiaf £15 yn un o'r busnesau sy'n cymryd rhan ac fe fyddwch yn derbyn sticer ar eich Cerdyn Teyrngarwch Caru Bangor.
Casglwch 5 sticer o 5 busnes gwahanol ac fe fyddwch yn gymwys i dderbyn taleb am £20 i wario yn unrhyw un o'r busnesau sy'n cymryd rhan.

Byddwn yn treialu'r cynllun hwn drwy gydol mis Hydref. Os fydd hyn yn llwyddiannus, byddwn yn dod â'r cerdyn yn ôl eto!
Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth am y Cerdyn Teyrngarwch Caru Bangor ar ein gwefan.
Neu gallwch gasglu eich cerdyn teyrngarwch o'r busnesau sy'n cymryd rhan a sganio'r côd QR.




## Cwestiwn ac Ateb

**Mae'n ymddangos bod ychydig o ansicrwydd a chwestiynau ar hyn o bryd, felly dyma eich cyfle i ddod o hyd i'r atebion.**

**C. Beth sy'n digwydd gyda Bangor Yn Gyntaf?**

A. Roedd y biliau ardoll i fod i gael eu gyrru allan ym mis Ebrill eleni. Ond, oherwydd fod busnesau'n ailagor yn dilyn y cyfnod clo, roeddem yn teimlo y byddai'n benderfyniad synhwyrol i oedi gyda'r biliau i helpu i gefnogi busnesau wrth iddynt ailagor. Unwaith y bydd Bangor Yn Gyntaf yn derbyn yr ardoll sydd wedi ei gasglu, bydd y prosiectau'n symud ymlaen yn ôl blaenoriaeth.

**C. Pam ydw i'n derbyn bil oddi wrthych chi?**

A. Ym mis Chwefror 2021, gyrrwyd papur pleidleisio i'r holl fusnesau o fewn ardal arfaethedig ardal yr Ardal Gwella Busnes (AGB), gyda chanlyniad o 58% o'r busnesau o blaid parhâd Bangor Yn Gyntaf.
Er mwyn i ni barhau i gefnogi Canol Dinas Bangor bydd pob busnes sydd â gwerth ardrethol dros £5,000 yn derbyn bil am 1.5% o'u gwerth ardrethol i'w roi yn ôl i mewn i Fangor.

**C. Ydi'r Cyfarwyddwyr yn elwa'n ariannol o'r AGB?**

A. Yr ateb, yn syml, yw NA.
Mae gan pob cyfarwyddwr naill ai eu busnes eu hunain neu maent yn gweithio i fusnes yng nghanol dinas Bangor ac maent yn gwirfoddoli eu hamser er mwyn tyfu a chefnogi canol ein dinas.

**C. Ydan ni'n gwneud unrhyw beth ynghylch glendid Bangor?**

A. Ydan, ond nid yw mor syml â glanhau'r strydoedd yn unig. Rydym yn trafod am gytundeb mwy cadarn gyda'r awdurdod lleol er mwyn cael amserlen gref yn ei lle ar gyfer Bangor a cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer y strydoedd.

**C. Mae'n ymddangos eich bod chi'n colli Cyfarwyddwyr yn gyflym. Pam?**

A. O Ebrill 1af 2021 rydym yn Fwrdd Cyfarwyddwyr newydd gyda ffocws cryfach ac yn fwy angerddol nag erioed. Yn anffodus, rydym wedi colli cyfarwyddwyr da. Mae un wedi dod yn Faer y ddinas, un arall wedi dod yn Reolwr y cwmni, a 4 arall wedi gadael am nad oeddent bellach yn cynrychioli busnes ym Mangor *(sydd yn ofyniad er mwyn bod yn gyfarwyddwr).*
Os oes gennych ddiddordeb mewn dod yn gyfarwyddwr, yna ewch i'n gwefan a chwblhau'r ffurflen gais os gwelwch yn dda.
www.bangorfirst.co.uk/directors